# Papur Elim, Heol Awst a'r Priordy

GOFALAETH CAERFYRDDIN A BANCYFELIN

**Dyma gariad, pwy a'i traetha?**
**Anchwiliadwy ydyw ef;**
**dyma gariad, I'w ddyfnderoedd**
**Byth ni threiddia nef y nef;**
**dyma gariad gwyd fy enaid**
**uwch holl bethau gwael y llawr,**
**dyma gariad wna im ganu**
**Yn y bythol wynfyd mawr**

***Mary Owen 1796-1875 - Caneuon Ffydd 199***
***Gweler yr erthygl y tu mewn***

**Rhifyn 9**
**PAPUR MAI 2025**

# GAIR GAN EIN GWEINIDOG

## Denu'r Miloedd

***WRTH*** wylio Pab Francis yn cyfarch y dorf ar Sgwâr San Pedr ar fore Sul y Pasg eleni, yn amlwg mewn gwendid corfforol, prin y byddai'r byd wedi disgwyl clywed am ei farwolaeth lai na 24 awr yn ddiweddarach.



Roedd torf o'i flaen ar Sul y Pasg, ond ymgasglodd y galarwyr yn eu miloedd ar y Sgwâr wedi dysgu am ei farwolaeth, ac amcangyfrifir i chwarter miliwn o bobl ymgynnull yn Rhufain ar ddydd ei angladd.

Pab y bobl, dyna'r disgrifiad cyffedinol ohono yn y llu o deyrngedau a dalwyd iddo. Dyn gwylaidd iawn. Roedd ei agwedd at ei alwedigaeth fel Pab yn llawer mwy anffurfiol na'i ragflaenwyr. Gwrthododd symud i mewn i fflat y Pab a adawyd yn wag gan ei ragflaenydd. Yn lle hynny roedd yn mynd i aros yn yr ystafell fechan yn hostel Santa Marta yn y Fatican.  Ni fethodd ei wyleidd-dra. Cododd ei ffôn ei hun, anwybyddu ceir mawr a gwell oedd ganddo gerdded os yn bosib fel, er enghraifft, ar y diwrnod ar ôl ei ethol pan lithrodd i ffwrdd ar droed i gasglu ei gês a thalu'r bil yn y gwesty lle bu'n aros cyn i'r etholiad gychwyn. Pe bai'n rhaid iddo fod ar bedair olwyn, byddai'n cymryd bws, neu'n aml yn gwasgu ei ffrâm swmpus i mewn i'w Fiat 500 salŵn!

Ond cofir amdano'n bennaf am ei safiadau blaengar ar faterion cymdeithasol. Yn ystod ei 12 mlynedd, bu Pab Francis yn hyrwyddo achosion a daeth yn adnabyddus am ei eiriolaeth o fewnfudwyr a'r tlawd yn ogystal â'i weithgarwch amgylcheddol, a buddsoddodd ei amser yn helaeth mewn materion heddwch byd-eang, gan gondemnio pob rhyfel a thywallt gwaed. Nid oedd ei gyfnod fel Pab yn fêl i gyd gan i'r Eglwys Gatholig wynebu heriau a gwlewyd ef yn ymddirheurio ar sawl achlysur dros gamgymeriadau'r gorffennol.

Ef oedd y Pab cyntaf o America Ladin, a'r Ieseuwr cyntaf i arwain yr Eglwys Gatholig.  Ef hefyd oedd y Pab cyntaf erioed i gymryd yr enw Francis, a hynny o barch i Sant Francis - a fu'n byw trwy gardota yn ardal Assisi, yn trwsio eglwysi mewn adfeilion a gofalu am wahangleifion. Yn dilyn troedigaeth yn 1209, aeth i Rufain, ac ar yr ail gynnig, argyhoeddodd y Pab Innocentius III i sefydlu Urdd newydd, sef Urdd y Ffransisiaid.

Er bod nifer o chwedlau yn gysylltiedig â Sant Francis, honni'r iddo weddïo gweddi arbennig iawn, gweddi a ddaeth yn adnabyddus yn fyd-eang, a felly hefyd yn yr iaith Gymraeg. Addaswyd yr emyn yn ein hiaith, a byddwn yn ei chanu yn yr oedfaon ar y Sul:

Iôr, gwna fi'n offeryn dy hedd,
lle bo casineb dof â'th gariad di,
a lle bo dagrau gad im ddod â gwên,
cyfannu'r holl raniadau boed i mi.

O Arglwydd Dduw, na ad im geisio dim
gan eraill, eithr rhoddi boed i mi,
na foed im hawlio dim imi 'n y byd
ond rhoi i eraill fyddo 'mraint o hyd.

Iôr, gwna fi'n offeryn dy hedd,
lle bo amheuaeth boed im ddangos ffydd,
a lle bo gofid dof â'th obaith di,
i d'wyllwch boed im ddod â golau ddydd.

***IE***, da o beth fyddai i ni gyd gario enw Sant Francis o Assisi yn ein bywydau, a chadw'i weddi ar flaen ein meddwl drwy'r amser.



**Gweddïwn**
***Gweddi ar gyfer Wythnos Cymorth Cristnogol 2025***

Arglwydd, rwyt ti'n cadw dy addewidion yn ffyddlon.
Drwy'r Ysbryd rwyt ti'n ein bendithio gyda gobaith diddiwedd.
Pan fydd pŵer yn ceisio tawelu cyfiawnder, rho'r dewrder i ni godi ein llais.
Pan fydd terfyn ar dlodi yn ymddangos ymhell i ffwrdd,
adnewydda ein ffydd yn dy deyrnas a ddaw ar y ddaear.
Pan fydd ein cymydog yn estyn allan,
ysbrydola ni i ymateb â chariad sy'n gorlifo.
Yn enw Iesu,

wythnos cymorth cristnogol 11–17 MAI

**Amen**

# DARLLENIADUR

| Mis Mai | Darlleniad |
|---|---|
| Wythnos 1 | Ioan 21: 1-19 |
| Wythnos 2 | Ioan 10: 22-30 |
| Wythnos 3 | Ioan 13: 31-35 |
| Wythnos 4 | Ioan 14: 23-29 |

## DIOLCH YN FAWR

*Cydnabyddir yn ddiolchgar gyfraniad*

**ANN THOMAS**
**Pentremeurig**

***at gyhoeddi'r Papur y mis hwn***

YN DYMUNO NODDI PAPUR YR OFALAETH?
Cyswllt
PHILIP JONES
Trysorydd
☎ 01267 233437 / info@maxevans.co.uk




Gellir trosglwyddo cyfraniad i'r cyfrif isod gan nodi'ch enw a "papur" fel cyfeirnod:

'Eglwys Annibynnol Y Priordy' Banc Lloyds
30-91-68
Acc no: 00229403

neu osod cyfraniad yr yr amlen sydd gyda Phapur yr Ofalaeth (rhifyn papur) y mis hwn. Gellir dychwelyd yr amlen i'n Gweindog neu Ysgrifennydd yr Eglwys neu ei rhoi yn y blwch casglu.

**Gwefan yr Undeb: www.annibynwyr.org**

## PERERINDOD I GOPA BRYN MYRDDIN




**Yn anffodus roedd prynhawn Gwener y Groglith yn un hynod o wlyb a gwyntog. Serch hynny, mentrodd rhyw 20 dewr i fyny'r Bryn gyda'r Groes! Cafwyd gair byr iawn gan ein Gweinidog ar ben y Bryn cyn dychwelyd i gynhesrwydd Allt Myrddin ble roedd nifer o bobl eraill yn ein disgwyl.**

**Mwynhawyd paned a chacen a diolch i Sharon Richards a'r teulu. Cafwyd cyfle i ganu emynau gyda'n gilydd gan fod piano ar gael a hefyd ein cyfeilydd amryddawn Heather Williams.**














Eisiau gwybod mwy am Gyfundeb Annibynwyr Gorllewin Caerfyrddin?
Trowch at: cyfundeb.com



**CODODD IESU!**

**Y bore**



***ROEDD*** llawr y Priordy'n gyfforddus lawn ar gyfer Oedfa Gymun yr Ofalaeth ar Sul y Pasg i ddathlu atgyfodiad Iesu. Croesawyd pawb yn gynnes iawn gan ein Gweinidog – yn aelodau, plant a phobl ifainc a oedd wedi dychwelyd adref dros yr Ŵyl, a pherthnasau a chyfeillion o bell ac agos.

Mae gweld a chywed sŵn plant mewn oedfa yn hynod o galonogol. Ble bydden ni hebddynt, deudwch! A chipiodd ein Gweinidog eu dychymyg ar amrant drwy sôn am wahanol fwydydd sy'n gysylltiedig â'r Pasg a'u harwyddocâd, fel yr Wy Pasg a Byns y Grog. Dewisodd ganolbwyntio'r tro hwn ar y pretsel – math o grwst wedi'i bobi a'i wneud o does a'i



siapio'n gyffredin i gwlwm. Daeth pretsels yn boblogaidd gyntaf fel bwyd Grawys i Gristnogion yn y seithfed ganrif. Mae'r gair pretsel yn deillio o air Almaeneg sy'n golygu 'breichiau bach'. Mae siâp troellog pretsels i fod i fod yn debyg i ddwy fraich wedi'u croesi mewn gweddi. A phob tro felly y byddwn yn bwyta pretsels, rydym yn cael ein hatgoffa o bwysigrwydd gweddi.

Elinor Wyn Reynolds (P) gyflwynodd y weddi a hynny'n dilyn darlleniad gan ein Gweinidog ar ffurf ffilm i gefndir cerddorol. Roedd y ddau gyfraniad yn ein hatgoffa o bwysigrwydd y diwrnod arbennig hwn yn y calendr eglwysig a bod lle gennym oll i fod yn ddiolchgar am yr Iesu a atgyfododd o farw i fyw a'r hyn a wna drosom heddiw!

Yn ei myfyrdod calonog a gobeithiol, cawsom ddarlun gwych gan ein Gweinidog o'r Arglwydd buddugoliaethus sy'n cynnig bywyd newydd i bob un ohonom. Hyfryd oedd cyffelybu'r Arglwydd yn trechu'r tywyllwch i'r gwanwyn yn trechu'r gaeaf.

Mae'n amser i orfoleddu a chyffroi a pha well ffordd o wneud hyn na chydganu'r emyn 'Arglwydd y Ddawns' sydd i'w weld yn Caniedydd yr

Ifanc. A dyna a wnaethom yn glo i'w myfyrdod gyda Meinir Lloyd yn cyfeilio ar yr organ.

Ein braint wedyn oedd ymuno yn un teulu wrth y bwrdd ar gyfer Swper yr Arglwydd dan arweiniad ein Gweinidog. Mynegodd ein cydymdeimlad â dau deulu yn eu colled diweddar, sef teulu Awena Thomas (B) ac Emyr G Jones (P). Dywedodd hefyd gymaint y mae rota ymwelwyr pum capel yr Ofalaeth yn cael ei werthfawrogoi gan gymaint o deuluoedd.  Diolch i Trefina Jones (B), Edward Jones (C), Ann (E), Nigel George (HA), am eu cymorth gyda'r elfennau.



Yn glo i'n hoedfa canwyd emyn gorfoleddus E Cefni Jones (Caneuon Ffydd -550) gyda phob pennill yn diweddu mor gadarnhaol: cododd Iesu! - Nos eu trallod aeth yn ddydd, Ocheneidiau droes yn gân ac I wirionedd gorsedd fydd.
***I'N*** hatgoffa o uchafbwynt yr wythnos fawr, derbyniodd pob un o ohonom ddewis o rodd gan ein Gweinidog wrth ymadael, sef Wy Pasg bach neu bretsel.

**Y prynhawn**

***GAN*** amlaf, tywydd braf a gawn wrth orymdeithio ym mhentref Bancyfelin a doedd heddiw ddim yn eithriad!  Daeth tyrfa dda i ymuno â'r orymdaith dan arweiniad Lyn Jones yn cario'r Groes. Bu cyfle i ganu emynau yn y pentref y gydag Eirian Thomas a Joanne Richards yn eu cyhoeddi.






Da oedd gweld llawer y capel yn llawn ar gyfer yr oedfa. Bu cyfle unwaith eto i weld yr Ŵyl Flodau a drefnwyd gan Nia Ward gyda chymorth Joanne Richards a Meinir Walters. Roedd yr arddangosfa

drawiadol hon yn llwyddo i blethu'r cyswllt rhwng y Nadolig a'r Pasg yn effeithiol, fel y mynegodd ein Gweinidog yn oedfa'r bore yn y Priordy.

Gwyneth Griffiths, Veronica Evans a Katie Evans gyflwynodd yr emynau, Angharad Earles y darlleniad ac Angharad Richards y weddi. Yr organydd oedd Trefina Jones. Cafwyd neges amserol gan ein Gweindog yn ei myfyrdod yn atseinio gobaith yr atgyfodiad i bob un ohonom.



Braint pleserus oedd cyflwyno blodau i Vera Thomas sydd wedi ymddeol fel Ysgrifennydd Ariannnol y Capel ar ôl blynyddoedd lawer o wasanaeth ardderchog. Diolch iddi am ei holl waith.

Mae edrych ymlaen bob amser at gael paned a Byns y Grog ar ddiwedd Oedfa'r Pasg ym Mancyfelin a diolch i'r gwragedd am baratoi a gweini unwaith eto eleni!




***AC*** roedd tipyn o syrpreis i'n Gweinidog ar y diwedd yn deg. Cyflwynwyd blodau iddi gan Delme Thomas gan fod ei phen-blwydd y diwrnod canlynol! Rhodd haeddiannol yn wir, yn dangos ein gwerthfawrogiad o'i gwaith dros gyfnod prysur tu hwnt





**Ein Papur yn sgwrsio gyda…**



**PHIL HOPLEY**

**EP:Cawsoch eich codi yng Nghefneithin, Phil, ac mae'n debyg bod person go arbennig yn athro arnoch yn Ysgol Sul y Tabernacl:**

**PH:***Chi'n iawn. Cefais fy nghodi a derbyn fy addysg gynnar yng Nghefneithin ac yn ddiweddarach yn Cross Hands. Roedd pawb yn y pentref yn siarad Cymraeg y pryd hwnnw a byddai unrhyw hwyr-ddyfodiaid ymysg y plant yn codi'r iaith yn fuan iawn! Y Tabernacl oedd capel y teulu a'n braint oedd cael bod yn nosbarth Carwyn James yn yr Ysgol Sul. Dosbarth o fechgyn 8 i 9 oed oedd e. Roedd yr athro'n gymeriad annwyl a hoffus dros ben. Roedd yn ddiacon ond byddai bob amser yn eistedd yn y sedd gefn. Er ei fod yn chwarae rygbi i Lanelli doedd dim byd mawreddog yn perthyn iddo o gwbl.*



**EP: Roedd un arall oenwogion y byd rygbi yn yr ysgol gyda chi hefyd.**

**PH:** *Wel oedd, Barry John. Roedd yntau a'i frodyr Alan a Clive yn yr ysgol gynradd yr un pryd â fi. Byddem fel plant y pentref yn chwarae gyda'n gilydd yn y Parc gyferbyn â'r capel. Roedd pawb eisiau bod yn yr un tîm â Barry pan oeddem yn chwarae rygbi. Dyna sut roedd ennill bob tro!*



**EP: Yn deall bod tipyn o waed y Gogledd ynoch chi, Phil! Sut hynny?**

**PH:** *Roedd Dad, neu 'Father' fel y byddwn yn ei alw'n dod o'r Wyddgrug yn Sir y Fflint, neu, a bod yn fanwl gywir, Llong, pentref bach iawn gerllaw. Symudodd i Abertawe pan oedd yn y Fyddin adeg Rhyfel a chwrdd â Mam a oedd yn dod o Frechfa. Ymgartrefon nhw yng Nghefneithin. Byddem yn treulio gwyliau ysgol, ar wahân i'r Nadolig, yn Llong gyda Nain a Taid ac yn mwynhau pob math o bethau, fel mynd am dro gyda Toby'r ci. Byddai Father hefyd wrth ei fodd yn mynd i'r Cae Ras i weld Wrecsam yn chwarae! A gyda llaw, roedd dwy chwaer fy nhad*

*yn gyfarwydd â'r defnydd o'r 'Welsh Not' yn yr ysgol. Ryn ni fel teulu'n dychwelyd i'r hen fro hon yng Ngogledd Ddwyrain Cymru mor aml ag y gallwn ac mae'r atogfion amdani'n rhai melys iawn.*




**EP: Rych chi wedi treulio'ch bywyd yn y byd adeiladu a phaentio a phapuro ac ar un cyfnod buoch yn addysgu yn y maes hwn mewn colegau addysg bellach yn Llanelli, Aberteifi a Rhydaman. Fwynheuoch chi'r profiad hwnnw?**

**PH:** *Do'n wir. Dechreuais gydag adeiladwr yng Nghaerfyrddin yn y chwedegau cynnar cyn symud at y Cyngor ac yna Ysbyty Glangwili. Fel y dywedoch chi, bues i'n addysgu prentisiaid mewn sawl campws coleg, gan gynnwys enw mawr yn y byd rygbi unwaith eto, Jonathan Davies neu Jiffy! Roedd yn amser hapus dros ben ac mae sawl un o'r hen brentisiaid, gan gynnwys Jiffy, yn canu corn arna i pan maen nhw'n fy ngweld o gwmpas y lle!*



**EP: Daeth cyfle maes o law i chi fentro i'r byd hwn ar eich liwt eich hunan. Faint o her oedd hynny?**

**PH:** *Wrth i nifer y prentisiaid leihau a'r gwaith papur gynyddu, teimlais ei bod yn bryd i mi gael ychydig o newid a dyma ddechrau busnes fy hunan. Erbyn hyn roeddwn yn briod ac yn dad i dri o blant. Rhaid dweud fy mod wedi bod yn ffodus iawn. Etifeddais lawer o gwsmeriaid pan ymddeolodd un y bues yn gweithio iddo a rheiny ac eraill wedyn yn cadw ataf dros y blynyddoedd. Roedd rhaid gweithio oriau maith iawn, yn enwedig ar y dechrau, ond dw i ddim yn edifar o gwbl. Dw i wedi cael llawer o bleser drwy'r gwaith a mwynhau cwmni cwsmeriaid a ffrindiau da. drwy'r amser.*

**EP: Peter, y mab, sydd wrth y llyw'r dyddiau hyn ond rych chi'n dal wrthi bob dydd?**

**PH:** *Mae Peter a minnau wedi cydweithio ers iddo adael yr ysgol dros 40 o flynyddoedd yn ôl erbyn hyn. Fu dim gair croes rhyngom o gwbl ychwaith. Dw i'n parhau i weithio ond bod ychydig mwy o hyblygrwydd*

*a rhyddid gyda fi bellach! Ryn ni fel arfer yn gweithio o fewn cwmpas o ryw ddeng milltir i Gaerfyrddin ond bues i un tro yn gweithio yn Llundain a Peter yn Orlando ble bu'n helpu ffrind iddo!*

**EP: Oes unrhyw dro trwstan yn aros yn y cof yn ystod eich gyrfa, Phil?**

**PH:** *Mae yna un peth yn sicr! Dw i'n cofio teithio i Gaerfyrddin o'r coleg yn Llanelli un tro a gorfod stopio ym Meinciau ble roedd gweithwyr yn tario'r ffordd. Roedd hi'n ddiwrnod poeth a ffenestri'r car ar agor. Yr eilad nesaf roedd cwmwl du yn y car. Roedd haid o bicwns wedi llanw'r lle a fy mhigo ym mhob man. Ro'n i'n ceisio'u pwno a neidiais i mas o'r car ond doedd dim byd yn tycio. Doedd dim amdani felly ond anelu am feddygfa Furnace House yn y dref. Roedd y lle hwnnw hwnnw ar gau a dyma fynd wedyn ar fy union i Ysbyty Glangwili. Rhaid oedd stripio'n noeth yn y fan honno a chael fy chweistrellu drosof i gyd gyda rhyw fath o hylif gwyn. Doeddwn i ddim gwaeth, diolch byth! Ac yn ôl rhai, mae'r profiad yn golygu na fydda i byth yn gwynegu. Gobeithio bod hynny'n wir!*



**EP: Mae arnoch chi ddyled fawr i'r Ffermwyr Ifainc, yn enwedig am un rheswm, on'd oes?!**

**PH:** *Oes yn wir. Ro'n i'n aelod o Glwb Ffermwyr Ifainc Llanarthne ble bues i'n ysgrifennydd am gyfnod a mwynhau cymdeithasu a pherfformio. Ond y peth gorau oedd cwrdd ag Eirwen fy mhriod. Rwy'n ei 'nabod ers 59 o flynyddoedd ac ryn ni newydd ddathlu 56 o flynyddoedd o fywyd priodasol. Ie, Y Clwb Ffermwyr Ifainc yw'r Dating Agency gorau erioed!*

**EP: Rych chi fel teulu'n aelodau yn Heol Awst a daethoch yn ddiacon yn 1993. Mae'r capel yn amlwg yn chwarae rhan bwysig yn eich bywyd.**

**EH:** *Mae Cristnogaeth yn bwysig iawn i mi ac yn fy helpu'n feddyliol a chorfforol ac yn gymdeithasol. Rwy'n ddyledus iawn i'r capel ers dyddiau plentyndod gyda'r Parchedig Morley Lewis yng Nghefneithin ac yna'n ddiweddarach, wrth gwrs, fel teulu yn Heol Awst. Ym mis Tachwedd y llynedd roedd Eirwen a minnau'n falch iawn pan ddaeth pedwar o'n hwyrion yn aelodau yn Heol Awst.*



**EP: Rych chi'n ddyn prysur, Phil, rhwng y**

**gwaith a bod yn dad-cu ond mae'n siŵr fod peth amser gennych i ymlacio ychydig.**

**PH:** *Mae'n bwysig i ymlacio. Ryn ni'n deulu clos iawn - Eirwen a'r plant Peter, Robert a Mark a'u teuluoedd. Ryn ni'n hoffi mynd am wyliau gyda'n gilydd, naill ai yng ngwledydd Prydain neu ar ambell i fordaith. Mae Eirwen a minnau wedi bod ar deithiau gyda'n gilydd dros y byd i gyd. Mae diddordeb mawr gyda fi hefyd mewn injins stêm. Mae hynny'n codi, dw i'n credu, o'r cyfnod pan o'n i'n treulio fy ngwyliau yn Llong yn y Gogledd ble roedd trenau'n stopio yn yr orsaf yn y fan yna rhwng Caer a'r Rhyl. Ar un adeg roedd model-rheilffordd gyda fi yn un o'n hystafelloedd gwely ond dim erbyn hyn! Fodd bynnag, mae'r diddordeb mewn injins stêm yn parhau ac rwy'n manteisio ar bob cyfle i'w gweld ble bynnag y byddaf!*



***Wel, diolch yn fawr iawn Phil am y sgwrs a phob dymuniad da i chi a'ch teulu i'r dyfodol.***



## PANED A SGWRS



**Gwesty'r Llwyn Iorwg**
**Bore Mercher 14 Mai 2025 am 10.30**
**Cyfle am baned, sgwrs a myfyrdod byr**

## Cyrddau Pregethu mis Mai

Cana
Nos Fercher, 7 Mai am 7 o'r gloch
Pregethir gan Y Parchg Heulwen Evans
Swper i ddilyn

Capel Bancyfelin
Nos Iau, 15 Mai am 7 o'r gloch
Pregethir gan Y Parchg Sian Elin Thomas
Swper i ddilyn

Croeso i bawb

**MARY OWEN**
**Emynydd**
**1796 – 1875**



Ganed Mary Owen yn Llansawel, Castell-nedd Port Talbot. Dywed *Cydymaith i Ganeuon Ffydd* fel y byddai ei thad, David Rees, un o arweinwyr crefyddol y gymdogaeth,yn cynnal oedfaon ar yr aelwyd gan nad oedd eglwys gan yr Annibynwyr yn yr ardal.


Daeth dan ddylanwad pregeth gan Mathew Wilks, gweinidog efengylaidd amlwg yn ei ddydd, yn Abertawe pan oedd yn ferch ifanc. Priododd ddwywaith. Capten llong o’r enw Thomas Davies, Castell-nedd oedd y gŵr cyntaf ond bu farw ar y môr gan adael Mary i ofalu am ddwy ferch fach. Ei hail ŵr oedd y Parchedig Robert Owen, gweinidog Annibynnol yng Nghwmafan. Yn anffodus, aeth yn gaeth i’r ddiod feddwol a throi’n gardotyn. Rhaid canmol Mary Owen am ei dderbyn a gofalu amdano yn ei ddyddiau olaf. **Bu hithau farw 26 Mai 1875, can mlynedd a hanner yn ôl i’r mis hwn**, a chafodd ei chladdu yn Llansawel

Roedd Mary’n emynydd toreithiog. Mae dau emyn ganddi yn Caneuon Ffydd (199, 507). Cyhoeddwyd casgliad o’i hemynau, *Hymnau ar Amryw Destunau* a William Williams (Caledfryn) ysgrifennodd y rhagair. Mae ambell emyn ganddi yn boblogaidd hyd heddiw. Dyfynnwn bennill cyntaf yr emyn mwyaf poblogaidd ohonynt, *Dyma gariad, pwy a’i traetha,* ar y tudalen blaen a’r emyn cyflawn yn y fan hon. Esbonia’r *Cydymaith* fel y cyhoeddwyd y ddau bennill ar wahân yn y casgliad o’i gwaith ond iddynt gael eu gosod gyda’i gilydd yn y llyfrau emynau enwadol.

Mae Branwen Jarvis mewn erthygl yn *Y Traethodydd* yn nodi fel mae ‘didwylledd ei phrofiad’ a ‘grym ei hargyhoeddiad personol’ yn treiddio drwy’r emyn hwn gan roi iddo gryfder arbennig:

‘Yn ddiau, Mary Owen yw awdur yr emyn gorau a luniwyd erioed i gariad Duw, a daeth y dôn fawr ‘Garthowen’ yn gyfrwng cryf i gyfleu neges yr emyn yn effeithiol’, yn ôl Iwan Llewelyn Jones yn *Emynau Ffydd 3:*

**Dyma gariad, pwy a'i traetha?**
**anchwiliadwy ydyw ef;**
**dyma gariad, i'w ddyfnderoedd**
**byth ni threiddia nef y nef;**
**dyma gariad gwyd fy enaid**
**uwch holl bethau gwael y llawr,**
**dyma gariad wna im ganu**
**Yn y bythol wynfyd mawr.**



**Ymlochestaf yn ei glwyfau,**
**ymgysgodaf dan ei groes,**
**ymddigrifaf yn ei gariad,**
**cariad mwy na hwn nid oes;**
**cariad lletach yw na'r moroedd,**
**uwch na'r nefoedd hefyd yw;**
**ymddiriedaf yn dragwyddol**
**yn anfeidrol gariad Duw.**

*Llun: Portread o'r Casgliad Portreadau Cymreig yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Person wedi'i ddarlunio: Mary Owen*

**CWLWM MONDULI CAERFYRDDIJN - TANSANIA**

**Dydd Sadwrn 10 Mai 2025 - 10.30-12**

**Eglwys y Bedyddwyr Saesneg, Caerfyrddin**



**Peter Hughes Griffiths yn nodi mwy o addoldai a chyn addoldai yn y dref.**



Rhaid cofio bod Capel Annibynnol Elim, Ffynnon-ddrain o fewn ffiniau tref Caerfyrddin ac yn rhan o Ofalaeth Caerfyrddin a Bancyfelin erbyn hyn.



Agorwyd Capel Elim yn 1849 ac fe'i hadnewyddwyd yn 1887. Mae'r achos yn dal yn gryf yno gyda gwasanaethau a gweithgareddau cyson.

.

Mae pentref ac Eglwys Llanllwch hefyd o fewn ffiniau'r dref. Eglwys y Santes Fair yw hi, ac fe gynhelir gwasanaethau bob Sul yno. Bu adeilad yno ers 1710 fel cangen o Eglwys San Pedr tan 1843. Yna fe'i hadnewyddwyd yn 1860 ac fe ailgodwyd y festri yn 1924. Mae'r organ a'r pulpud yn eu lle ers 1935.



A ble mae Eglwys Yr Holl Saint meddech chi?  Capel yn y carchar oedd yr eglwys hon o fewn waliau yr hen garchar wrth y castell. Fe symudwyd y capel, carreg wrth garreg, pan ddymchwelwyd y carchar a'i godi wedyn fel capel i'r 'High School' a oedd wedi ei lleoli yn y plasty ar waelod Lôn Pisgwydd. Pan gaewyd yr ysgol fe'i henwyd yn Eglwys Yr Holl Saint a'i hagor i addolwyr yn 1966. Bellach fe adeiladwyd stâd o dai wrth yr eglwys gyda'r enw hyfryd Bro'r Holl Saint, ac mae'r capel wedi ei droi yn gartref i fyw ynddo.



Mae Capel yng Ngholeg Y Drindod sy'n dal i gael ei ddefnyddio gan y staff a'r myfyrwyr a gan y gymuned yn achlysurol. Sefydlwyd y coleg yn 1848 yn cynnwys capel, ysgoldy, llyfrgell, ystafell fwyta a thŷ i'r prifathro.  Yn 1931 cafodd capel newydd ei gysegru ar y safle ac fe gafodd y coleg yr enw swyddogol Coleg y Drindod.     Mae dwy ffenest arbennig yng Nghapel Coleg y Drindod. Un yn seiliedig ar gofio am Lyfr Du Caerfyrddin a'r llall yn y rhag-gapel i gofio am Norah Isaac.

Ydych chi wedi bod erioed yn yr eglwys sydd ar hen safle Ysbyty Dewi Sant neu Barc Dewi Sant erbyn hyn? Mae hi'n eglwys hynod o brydferth ar y tu mewn. Yn 1895, wrth ychwanegu mwy o adeiladau ac ehangu'r Ysbyty, fe godwyd yr eglwys hon i eistedd 500 o bobl. Mae'r eglwys bron gyferbyn â'r fynedfa i'r prif adeilad. Bydd hi'n ddiddorol gweld pa ddefnydd wnaiff y perchnogion newydd y safle o'r adeilad.






Mae Eglwys Efengylaidd Gymraeg Caerfyrddin wedi ei lleoli yn Y Celwrn yn Heol Yr Hen Orsaf yn y dref. Roedden nhw'n arfer addoli yn hen adeilad Coleg y Presbyteriaid ar y Rhodfa cyn prynu'r hen Moose Hall ar lan yr afon Tywi yn 2008. Cynhelir dau wasanaeth yno bob Sul ac un ar nos Fercher hefyd.




Gyferbyn â'r Orsaf Fysiau yn Heol Las mae Neuadd Efengylaidd Ebenezer ac mae gwasanaethau yno yn rheolaidd.

Mae'r 'Grace Evangelic Church' yn cwrdd yng Nghanolfan Fowlio Dan Do Caerfyrddin wrth Barc y Dref.




Canolfan Fowlio Xcel yn Nhre Ioan yw cartref Eglwys Gymunedol Tywi, ond maen nhw wedi sefydlu bellach yn un o'r unedau yn Rhodfa Siopa Santes Catrin yng nghanol y dref.




Mae Eglwys Bethel yn cyfarfod yn Hill House, Teras Pictwn bob Sul.

Mae 'Bethel Christian Centre Apostolic Church' wedi ei lleoli yn Hen Heol Llansteffan yn Nhre Ioan ac yn llewyrchus iawn.

Er nad yw Capel Babell Zeion Newydd, Pensarn, yn llythrennol yn y dref, yno mae Methodistiaid Calfinaidd Caerfyrddin yn addoli ar ôl i Gapeli Heol Dŵr a Bethania a Zion gau. Adeiladwyd Y Babell yn wreiddiol yn 1834 a'r capel presennol yn 1905 o gynllun y pensaer George Morgan. Cynhelir gwasanaethau yn y ddwy iaith yno ynghyd â gweithgareddau eraill.



Tan iddo gau yn 1963 roedd Coleg Y Presbyteriaid yn Y Rhodfa, ond fe ddaeth Yr Academi Gymreig i Gaerfyrddin yn 1704 ac fe'i lleolwyd mewn amrywiol fannau yn y dref cyn dod yn Goleg Presbyteraidd a'i leoli yn y Rhodfa yn 1860 a'i ehangu yn 1890 gan gynnig Graddau Prifysgol mewn Diwinyddiaeth. Yn y coleg hwn yr hyfforddwyd llawer iawn o fawrion y genedl – yn bregethwyr, athrawon ac awduron. Fe gaewyd y coleg yn 1963 ac uno ag Ysgol Ddiwinyddiaeth Prifysgol Caerdydd.



Mae'n werth nodi bod nifer fawr o addoldai yn dal i gynnal gwasanaethau rheolaidd ar y Sul yn y dref, ynghyd â gweithgareddau amrywiol eraill yn gyson, a bod y gymuned yn gyffredinol yn defnyddio'r adeiladau i gynnal amrywiaeth eang o ddigwyddiadau a chyfarfodydd.  Mae'r achos Cristnogol yn dal yn gryf yn nhref Caerfyrddin gyda'r holl addoldai a restrwyd yn brawf o hynny.

## CORNEL
## CODI GWÊN!

**Pa broffwyd oedd yn gwybod y mwya o wybodaeth?**
**Ateb**
**Abraham. Roedd yn gwybod y LOT**

## YMDDEOLIAD HAPUS DIANE!



**Adrian Evans, Trysorydd y Priordy, yn cyflwyno rhodd i Diane Evans ar ei hymddeoliad yn Dilyn 27 mlynedd o lanhau yn y Priordy.**

## LLONGYFARCHIADAU ISABELLE



**Isabelle Phillips a enillodd Dlws Y Priordy yn Ysgol Bro Myrddin eleni am yr ymdrech orau ym maes Addysg Grefyddol**

YSGOL GYFUN GYMRAEG BRO MYRDDIN

## Ifanc@Gofalaeth



**Tymor newydd**
Helo bawb a chroeso nôl. Gobeithio cawsoch Basg hapus! Rydym yn edrych ymlaen yn fawr iawn at eich gweld yn yr Ysgol Sul eto y tymor hwn.




**Joseff**
Diolch yn fawr iawn i bawb sydd wedi archebu sedd i weld y sioe gerdd Joseff. Bydd manylion llawn yn dod atoch yn y man.

# Chwilotair Anifeiliaid yn Y Beibl

| | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Y | P | S | O | F | F | D | D | W | O | A | L | W | H |
| A | L | E | L | W | R | L | L | E | W | P | A | R | T |
| N | Y | S | A | R | W | D | U | A | Y | N | E | N | Y |
| N | E | I | D | R | A | Y | S | D | S | G | Y | H | P |
| E | M | G | U | Y | F | N | F | S | Y | O | C | A | W |
| F | E | D | N | R | N | D | Y | A | R | W | L | O | W |
| G | C | L | R | I | E | C | M | H | U | R | D | R | C |
| L | M | Y | A | F | D | O | A | B | C | N | M | O | C |
| A | O | S | D | M | O | M | L | R | O | O | C | F | A |
| R | W | T | A | N | G | W | W | Y | F | N | M | B | R |
| P | W | L | F | B | Y | Y | O | M | G | A | Y | D | W |
| L | N | Y | A | L | L | D | D | W | A | P | G | A | W |
| N | N | M | D | E | L | Y | E | G | A | N | G | L | R |
| N | A | L | B | G | G | N | N | H | M | R | R | D | R |

BUWCH
NEIDR
YSTLYM
ASYN
DAFAD
LLYGODENFAWR
MOCHYN
MALWODEN
CARW
MWYDYN
GAFR
LLEWPART

**Mae'n Wythnos Cymorth Cristnogol ym mis Mai.**
**Darllenwch fwy ar y dudalen nesaf!**

# Wythnos Cymorth Cristnogol
# Taflen weithgareddau i blant

**Dyma Aurelia, sy'n ffermio yn Guatemala. Mae hi'n tyfu cacao (sy'n cael ei ddefnyddio i wneud siocled – blasus!), sinamon, ŷd a phinafalau.**

Mae gan Aurelia deulu mawr iawn, ac mae'r bwyd mae hi'n ei dyfu yn eu helpu i fwyta'n dda a hefyd yn ei helpu i ennill arian.

Ond mae stormydd garw a sychder ofnadwy (pan nad oes glaw am gyfnod hir iawn) wedi bod yn dinistrio ei chnydau. Roedd Aurelia yn gwybod bod ffordd o ddiogelu ei fferm a'i theulu. Roedd ganddi obaith!

Cyfarfu Aurelia â ffrindiau Cymorth Cristnogol, o'r enw Congcoop. Fe wnaethon nhw ymuno ag Aurelia i ddod o hyd i wahanol ffyrdd o ffermio er mwyn iddi allu helpu ei phlanhigion i dyfu, hyd yn oed pan oedd y tywydd yn ei herbyn.

Yn awr, mae Aurelia yn helpu ei chymuned drwy ddysgu iddynt beth mae hi wedi ei ddysgu am ffermio. Mae hi eisiau i fywydau pawb gael eu llenwi â gobaith.



Mae gan Aurelia lawer o wyrion ac mae hi'n caru pob un ohonynt yn fawr.

Mae hi'n ceisio tyfu gwahanol ffrwythau a llysiau er mwyn iddynt gael deiet cytbwys sy'n llawn fitaminau a mwynau i'w cadw'n iach.



## Guatemala
### Oeddech chi'n gwybod?



**Mae 37 llosgfynydd yn Guatemala.**



**Y cwetsal yw'r aderyn cenedlaethol.**




**Dyma un o'r llefydd cyntaf yn y byd lle cafodd siocled ei wneud.**

**Mae Cymorth Cristnogol yn helpu ffermwyr fel Aurelia i dyfu planhigion sy'n aros yn iach er bod y tywydd yn gwaethygu.**

Mae ffermwyr angen hadau da, pridd da, gwrtaith da (bwyd planhigion) a dŵr da i dyfu bwyd da. Mae Aurelia a'i ffrindiau'n obeithiol eu bod bellach yn gallu rhoi mwy o fwyd i'w teulu i'w helpu i dyfu.

## Pwy sy'n eich helpu i dyfu?

Ysgrifennwch eu henwau neu tynnwch luniau ohonynt yn y pot planhigion a diolch i Dduw amdanynt.



# CWIS Y DIARHEBION CYMRAEG

## Mae pob dihareb yn dechrau gyda'r llythyren 'D'

Llanwch y Bylchau! Rhowch gynnig arni! Ceisiwch ddyfalu beth yw'r gair coll!
Pob lwc!!

| | |
|---|---|
| 1 | **Dau beth nid rhaid eu harbed, ychydig a ---** |
| | |
| 2 | **Daw hindda wedi ---** |
| | |
| 3 | **Deuparth gwaith, ei ---** |
| | |
| 4 | **Dianc rhag y mwg a syrthio i'r ---** |
| | |
| 5 | **Diogi yw mam ---** |
| | |
| 6 | **Diwedd y gân yw y ---** |
| | |
| 7 | **Doeth a wrendy, ffôl a ---** |
| | |
| 8 | **Drwg y ceidw'r diawl ei ---** |
| | |
| 9 | **Drych i bawb ei ---** |
| | |
| 10 | **Dyfal donc a dyrr y ---** |

Atebion ar Dudalen 25

**Olga Williams….**

## Cyngerdd Aelwyd Hafodwenog



Ar nos Sul, 6 Ebrill roedd Festri Heol Awst dan ei sang gyda thyrfa o bobl wedi dod ynghyd i Gyngerdd gan Aelwyd Hafodwenog a drefnwyd gan Cymdeithas Gofalaeth Caerfyrddin a Bancyfelin.



Croesawyd pawb yno gan ein Gweinidog, Y Parchedig Beti-Wyn. Codi arian oedd nôd y noson i Aelwyd Hafodwenog ac Adran yr Urdd Ffynnon-ddrain.



Llywydd y Noson oedd Annell Dyfri a chafwyd anerchiad arbennig a gwerthfawrogol o'r cyfleoedd yr oedd wedi'u derbyn gan yr Urdd a'r Ysgol Sul yn Heol Awst.

Cafwyd amrywiaeth o eitemau gan Aelwyd Hafodwenog yn cynnwys Côr Cymysg, Côr Merched, Côr mawr, ynghyd ag unawdau, deuawdau, llefaru a monolog. Arweinydd dawnus y noson oedd Sioned Page Jones





gyda chymorth Dai Baker a Hannah Richards. Ann Evans oedd yng ngofal y llefaru. Diolch hefyd i'r cyfeilyddion gwych.

Cafwyd noson ardderchog a chofiadwy iawn ac roedd pawb wedi rhyfeddu at ddoniau'r bobl ifanc yma. Diolch o waelod calon i bawb am y gefnogaeth a gafwyd.

**Mae Wythnos Cymorth Cristnogol yn ddigwyddiad sy'n cael ei gynnal yn flynyddol ar draws y Deyrnas Unedig, gan elusen Cymorth Cristnogol i godi arian. Mae Cymorth Cristnogol yn elusen sy'n gweithio gyda 700 o sefydliadau lleol o fewn 50 o wledydd yn y byd. Maent yn helpu cymunedau tlawd i ddelio gyda'u bywydau caled, newid yn yr hinsawdd a bygythiadau posib am drychinebau naturiol. Law yn llaw â hyn, mae Cymorth Cristnogol yn rhoi cymorth gydag addysg, glanweithdra, iechyd a chymodi rhwng cymunedau penodol.**

**Dechreuodd Cymorth Cristnogol ym 1957, gyda'r bwriad o annog ymwybyddiaeth y cyhoedd, ac arweiniodd hyn i'r elusen fabwysiadu'r enw Cymorth Cristnogol ym 1964. Y bwriad yn y 60au oedd gwneud pobl yn ymwybodol o fygythiad o ddiffyg bwyd a'r posibilrwydd o newyn.**

**Eleni, bydd Wythnos Cymorth Cristnogol yn canolbwyntio ar y tlodi yng nghymunedau Burundi. Mae dros 70% o bobl yn Burundi yn wynebu newyn a thlodi bob dydd. Mae dod o hyd i waith a bwyd yn frwydr gyson, ac mae hyd yn oed y rhai sydd â tho dros eu pennau yn aml heb angenrheidiau fel trydan a dŵr glân.**






**Gallwch ddefnyddio'r amlen sydd yn y Papur y mis hwn os ydych yn dymuno rhoi rhodd i Gymorth Cristnogol.**

## OEDFA CYMORTH CRISTNOGOL

Mae croeso i unrhyw un ymuno â'r oedfa hon a gynhelir yn Y Tabernacl ar Fore Sul 11 Mai 2025 am 10.30.

cymorth cristnogol

**BORE COFFI CYMORTH CRISTNOGOL**
**NODWCH Y DYDDIAD NEWYDD, OS GWELWCH YN DDA**
**Dydd Sadwrn 7 Mehefin 2025**
**10.00-12.00**
**Capel yr Annibynwyr Saesneg**
**Stondiau a Raffl.**
**Tocyn: £3**

***I'ch dyddiadur: Bore Coffi'r Hydref: Dydd Sadwrn 29 Tachwedd 2025 yn y Capel Wesle. Mwy o fanylion i ddod***

| CWIS Y DIARHEBION - ATEBION | | | |
|---|---|---|---|
| 1 | llawer | 6 | geiniog |
| 2 | drycin | 7 | lefair |
| 3 | ddechrau | 8 | was |
| 4 | tân | 9 | gymydog |
| 5 | tlodi | 10 | garreg |



**Neges Heddwch ac Ewyllys Da 2025**

Eleni mae Neges Heddwch ac Ewyllys Da yr Urdd yn canolbwyntio ar **Dlodi**.

Gyda'r argyfwng tlodi plant presennol i'w weld yng Nghymru ac ar draws y byd, mae'r Urdd a phobl ifanc Cymru wedi dewis canolbwyntio ar y mater hollbwysig hwn.

Gydag un ym mhob tri o blant a phobl ifanc Cymru yn byw mewn tlodi, mae Neges Heddwch 2025 yn datgan yn glir yr angen am newid.

Daw newid a gweithred o'r gymuned yn gyntaf drwy roi llais i bawb. Galwn ar y bobl sydd mewn pŵer ar draws y byd i feddwl ac ystyried cenedlaethau'r dyfodol.


**Crëwyd y neges eleni gan aelodau'r Urdd a myfyrwyr o Goleg y Cymoedd gyda chefnogaeth Katie Hall o'r band Chroma, elusen Achub y Plant a'r dylunydd graffeg Steffan Dafydd.**



Mae geiriau'r neges mewn amryw o ieithoedd, pecyn addysg a phecyn partneriaid ar gael o'r wefan hon. Os hoffech unrhyw fanylion neu os hoffech gefnogi'r ymgyrch, cysylltwch gyda ni.

Heddwch@urdd.org

Gyda'n gilydd gallwn roi llais i bawb.


NEGES
HEDDWCH
AC
EWYLLYS DA
2025
15.05.2025
TLODI
Mae pobl ifanc sy'n profi tlodi
yn gwybod y gwir.

Ni fel coed sy'n plygu
ein cyrff tuag at y goleuni.

Mae gennym wreiddiau
sy'n ymestyn
yn ddwfn drwy galon
ein cymunedau.

Mae pawb yn haeddu
byw mewn cymuned
sy'n lleddfu ein dagrau.

Dyma ein hawl.
Dyma ein bywydau.
Dyma ein llais.

Mae'n cymryd pentre'
i fagu plentyn.

Ben bore,
bydd y niwl yn clirio,
bydd y byd yn deffro.
Bydd y byd yn gwrando.

Bydd deilen newydd yn agor.
Bydd gobaith.
Byddwch yn gwrando ar ein llais.

Rhaid edrych
ar ôl y bobl ifanc
sy'n dod ar
ein hôl.

Mae'n cymryd pentre'
i fagu plentyn.
Dyma ein hawl.

Byddwch yn bentref i ni.
Urdd

**Olga Williams…**



## CYFARFOD Y GYMDEITHAS

Braf oedd gweld cynulleidfa deilwng yn Festri Heol Awst yng Nghyfarfod Y Gymdeithas prynhawn Dydd Mawrth, 15 Ebrill pan groesawyd Y Bonheddwr Kees Huysmans a'i wraig Elonwy i'n plith.



Roedd Kees Huysmans wedi ei eni yn yr Iseldiroedd – wedi ymgartrefu yng Nghymru a sefydlu busnes llwyddiannus iawn, sef Waffles Tre-groes, ac mae erbyn hyn yn rhugl yn y Gymraeg.



Mae Kees Huysmans yn ganwr o fri ac wedi ennill cystadleuaeth yr Unawd Bariton yn yr Eisteddfod Genedlaethol amryw o weithiau, ac yn Eisteddfod Genedlaethol Y Fenni yn 2016 ennill y Ruban Glas. Cafwyd datganiad grymus ganddo, gyda'i wraig Elonwy yn cyfeilio, o 'Gweddi Pechadur' (Morfydd Llwyd Owen), 'Y Dymestl' (R.S Hughes), 'Hawl i Fyw' (Dafydd Iwan) ac 'Unwaith eto'n Nghymru Annwyl' (Dafydd Lewis).



Mae Kees yn aelod o Côr Meibion Cwmann a phwysleisiodd bwysigrwydd canu i lesiant dyn. Roedd bod yn aelod o'r Côr hefyd wedi bod yn gymorth mawr iddo ddysgu Cymraeg. Mae Kees yn dal i fwynhau cystadlu mewn eisteddfodau.

Braint oedd cael cwmni Kees ac Elonwy Huysmans a bydd y prynhawn arbennig yma'n sefyll yn y cof.

## GWASANAETH PASG CARTREF PRESWYL

## PLAS Y DDERWEN GYDA'N GWEINIDOG













## CYFRES YR EGLWYSI ANGHYFFREDIN

### Edrychwn yn bennaf ar yr adeiladau

### Capel y Cŵn, Vermont, Yr Unol Daleithiau




**Mae'r eglwys yn Vermont, talaith wedi'i lleoli yn rhanbarth Lloegr Newydd yng Ngogledd-ddwyrain yr Unol Daleithiau, yn gapel cŵn mewn gwirionedd a adeiladwyd i anrhydeddu'r cwlwm rhwng ci a pherchennog.**

**Mae'n eistedd ar fferm fynyddig 150 erw o'r enw Mynydd y Cŵn- sy'n croesawu pobl sy'n hoff o gŵn ers iddo agor yn 2000.**

**Syniad y diweddar Stephen Huneck (1948-2010) yw'r Capel Cŵn - cerfiwr coed ac artist gwerin Americanaidd.**

**Mae arwydd o flaen y capel yn darllen, "Croeso i bob cred, pob brîd, ond ni chaniateir unrhyw ddogmâu!'**

**Cyflwyno siec am £500 i Aelwyd Hadodwennog, sef rhan o elw'r gyngerdd a gynhaliwyd yn Heol Awst yn ddiweddar**



**Ysgol Sul Elim yn cyflwyno siec o £1,000 i Jane Rees, Apêl Bandi. Codwyd yr arian yn yr Oedfaon Teuluol dros y flwyddyn diwethaf. Ymdrech wych**



## PANED A SGWRS MIS EBRILL



**CWRDD CHWARTER**
**CAPEL NEWYDD, LLAN-Y-BRI**



**Dydd Iau, 8 Mai 2025**


**Y Gynhadledd am 4 a Chyfarfod yr Hwyr am 7**



**Y gwestai yng Nghyfarfod yr Hwyr fydd Y Parchedig Jeff Williams, Llywydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg**

**Trefnir lluniaeth ysgafn rhwng y cyfarfodydd.**
**Croeso cynnes i bawb**





***BLYCHAU STAMPIAU A CHETRYS***

***Y PRIORDY***

***Croeso i chi gyfrannu – y cyfan yn mynd at achoson da***

# RHWYDWAITH

*EIN* cofion cynnes at bawb sy’n anhwylus y dyddiau hyn, yn enwedig y rhai sy’n cael neu wedi cael triniaeth yn yr ysbyty a phawb sydd mewn cartrefi ac yn gaeth i’w haelwydydd ar hyn o bryd. Meddyliwn yn arbennig y mis hwn am Harri Evans (P). Cofion annwyl atoch i gyd.

Cafodd Dr Llinos Roberts (P) ei chyfweld ar Beti a’i Phobol ar Radio Cymru. Mae Llinos yn rhoi cyngor fel meddyg ar raglen Heno ac wedi cyflwyno cyfres Doctor, Doctor ar S4C. Yn ystod y cyfweliad awgrymodd fod pryder bod disgyblion a allai wneud doctoriaid gwych yn peidio â mynd i'r byd meddygol gan fod gymaint o bwyslais ar gyrhaeddiad academaidd, a dim digon ar sgiliau hanfodol eraill. Bu’n trafod hyn ar Prynhawn Da ar S4C hefyd ynghyd â rhai materion meddygol.



Mae’n siŵr y bu amryw ohonoch yn gwylio Dechrau Canu, Dechrau Canmol yn dathlu’r Pasg yn Llyn ac Eifionydd. Daeth y canu cynulleidfaol o Gapel y Traeth, Cricieth ac arweinydd y gân oedd Pat Jones (P).



Llongyfarchiadau i Heledd Mai Jones (P), ar gael ei dewis yn Llysgenhanes Ffermwyr Ifainc Sir Gâr 2025-26. Pob dymuniad da iddi wrth y gwaith.



A chlywsom ar Ddydd Cenedlaethol Anifeiliaid Anwes fod Bundy (ci smwt) wedi dod i fyw at deulu’r Gweinidog gan fod angen cartref newydd arni. Mae pawb wedi dwlu ar Bundy gan gynnwys Llew!

Llongyfarchiadau i Harri Evans (P) ac Alwyn Jones (P) ar ddathlu pen-blwydd arbennig yn ddiweddar. Ein dymuniadau gorau i’r ddau ohonoch.



**A llongyfarchiadau hefyd i Gareth Picton Jones (P) ar ddod yn dad-cu am y tro cyntaf. Ganwyd Padrig Picton Jones i Daniel a Lisa**



**Unrhyw newyddion ar gyfer rhifyn Mehefin i'n Gweinidog neu Alun Charles**

**CYDYMDEIMLAD**

**Estynnwn ein cydymdeimlad cywir â nifer o deuluoedd sydd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar:**

**Myfanwy a Rhys, Gwenllian, Marged ac Anna (P) ar golli mam Myfanwy a mam-gu'r plant, sef Margaret Williams, Lledrod.**

**Thelma Evans (P) ar golli'i chefnder, Dennis Nicholas, Crymych.**

**Siân a Gareth, Luned ac Aneirin (E) ar golli mam Gareth, sef Mary Rees, Bwlch.**

**Pat a Dylan Davies (E) ar golli mam Pat, sef Vera Hobby, Y Drenewydd.**

**Sulwyn Thomas a Glenys Thomas ar golli ewythr Sulwyn, sef Y Parchedig Athro John Haywood Thomas, Tresimwn - diwinydd hynod o ddisglair a gyhoeddodd lawer yn cynnwys y gyfrol Ar y Ffin sef cyfieithiadau o waith Paul Tillich i'r Gymraeg.**

**Cofiwn amdanoch i gyd yn eich galar a'ch hiraeth**

**OEDFA DDINESIG**
**Y PRIORDY – BORE SUL 11 MAI 2025 – 10**
***yng nghwmni'r maer newydd***
**Y CYNGHORYDD HELEDD AP GWYNFOR**
**Croeso cynnes i bawb**






**DIOLCH YN FAWR**

**Diolch i Beti-Wyn ac Athrawon yr Ysgol Sul am y lluniau'r mis hwn.**

# Y DIWEDDAR EMYR GWYN JONES



Gyda thristwch nodwn farwolaeth y diweddar Emyr Gwyn Jones, Glantywi gynt, a fu farw yn Ysbyy Glangwil ar 12 Ebrill 2025 yn 92 oed.

Fe'i ganwyd yn Stoke-on-Trent ond roedd ei rieni'n hannu o ogledd Cymru, o Lanfairfechan a Phen-rhos, Bangor. Bu iddo gwrdd â'i ddarpar wraig Lyn, merch o Sir Gâr, yn y capel Cymraeg, yn Mayer Street, Hanley, Stoke a hithau'n hyfforddi i fod yn athrawes yng Ngholeg Hyfforddi Nelson Hall. Priodwyd y ddau yng Nghapel y Graig, Tre-lech.

Cafodd Emyr Gwyn yrfa lwyddiannus iawn fel Cyfrifydd, gan ddod yn bartner yn Donald Owen & Co yma yn y dref , ac wedi ei ymddeoliad yn 1991, fe gymerodd Gareth, ei fab, at y busnes yn ei le.

Bu ynglŷn â nifer o gymdeithasau yn y dref yn ystod ei fywyd gan gynnwys y Clwb Golff, Y Ford Gron, yn aelod o Gôr Meibion Dyffryn Tywi ac roedd yn ddilynwr brwd i'r Sgarlets trwy gydol ei fywyd.

Ond ei brif ddiddordeb oedd ei deulu. Roedd yn dad balch i Nefydd a Gareth ac yn dad-cu annwyl i Daniel, Lewis, Betsan a Llinos, a llawenydd mawr iddo oedd dod yn hen dad-cu i Padrig sydd ond ychydig wythnosau oed.

Yn dilyn colli ei briod Lyn, a'i olwg yn gwaethygu, mwynhaodd Emyr ofal arbennig yng Nghartref Castell Tywi. Gwnaeth ffrindiau da yno, ac roedd yn boblogaidd gyda'r preswylwyr a'r staff. Diolch yn fawr iawn i aelodau timau bugeilio'r Priordy a fu'n ymweld ag e'n fisol.

Cynhaliwyd ei angladd ddydd Mercher 16 Ebrill yn Amlosgfa Parc Gwyn. Gwasanaethwyd gan ei Weinidog. Rhoddir ei weddillion i orfwys maes y law ym mynwent y dref gyda'i ddiweddar briod Lyn.

Estynnnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Nefydd, Gareth a'r cysylltiadau teuluol i gyd.

**Beti-Wyn James**

# DYLETSWYDDAU

## ROTA YMWELWYR
## ELIM, HEOL AWST A'R PRIORDY

### MAI / MEHEFIN

| E | Aelodau | HA | Gweinidog | P | Gwynfor a Janet Davies<br>Adrian a Gloria Evans<br>Dennis a Rhian Jones |
|---|---|---|---|---|---|

## HEOL AWST
## DYLETSWYDDAU'R SUL

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Mai | 4 | | Mehefin | 1 | |
| | 11 | Joan Thomas a Roy James | | 8 | Hywel a Janet Evans |
| | 18 | | | 15 | |
| | 25 | Joan Thomas a Roy James | | 22 | |
| | | | | 29 | Hywel a Janet Evans |

## CAPEL ELIM

### BLODAU

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Mai | 4 | Rhian Morgan | Mehefin | 1 | Mirain Walters |
| | | | | 15 | Amy Evans |

## PARATOI'R BWRDD CYMUN

| | | | |
|---|---|---|---|
| Mai | 4 | Bore | Pat Davies |
| Mehefin | 1 | Bore | Ann Walters |

## PRIORDY
## GOFALWR / GWRESOGWR Y MIS

| Mai | | Mehefin | |
|---|---|---|---|
| Gofalwr | Gwresogwr | Gofalwr | Gwresogwr |
| Elis Jones | | Gareth Gravell | |

## BLODAU

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Mai | 4 | | Mehefin | 1 | |
| | 11 | Catrin Ann Thomas | | 8 | Margaret Lloyd Evans |
| | 18 | | | 15 | |
| | 25 | Rhyswen Michael | | 22 | Pererindod |
| | | | | 29 | Heol Awst (Undebol) |

## PARATOI'R BWRDD CYMUN

| | | | |
|---|---|---|---|
| Mai | 4 | Bore | Eirlys Davies a Margaret Lloyd Evans |
| Mehefin | 1 | Bore | Betsan James a Rachel Davies |

## DARLLENWYR

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Mai | 4 | Ffion Parsons | Mehefin | 1 | Delyth Gwawr Davies |
| | 11 | Y Plant | | 8 | Alison Parsons |
| | 18 | Tim Hayes | *Sul y Tadau* | 15 | Y Tadau |
| | 25 | Peter H Griffiths | | 22 | Pererindod |
| | | | | 29 | Heol Awst (Undebol) |

## CYHOEDDWYR

| | | | |
|---|---|---|---|
| Mai | Luned Voyle Thomas | Mehefin | Jayne Woods |

## CYFARFODYDD SWYDDOGION YR OFALAETH

| CYFARFODYDD DIACONIAID AC YMDDIRIEDOLWYR EIN GOFALAETH | | | |
|---|---|---|---|
| ELIM | Prynhawn Gwener<br>13 Mehefin | 1.30 | Capel Elim |
| HEOL AWST | Prynhawn Mercher<br>11 Mehefin | 2.00 | Festri Heol Awst |
| Y PRIORDY | Nos Lun<br>9 Mehefin | 7.30 | Festri'r Priory |

# SULIADUR YR OFALAETH

## MAI / MEHEFIN 2025




| | 10,00 | 11.30 | 3.00 | Amrywiol |
|---|---|---|---|---|
| **Mai 4** | Priordy©<br>Gweinidog | Elim (+ HA)©<br>Gweinidog | | |
| **Mai 7**<br>(Mercher) | | | | Cana 7.00<br>Cwrdd Pregethu |
| **Mai 11** | Priordy – *OD*<br>Sul Y Maer<br>Gweinidog | | Heol Awst (+ E, P) ©<br>Cyfarfodydd blynyddol<br>Noel Davies & Gweinidog | |
| **Mai 15**<br>(Iau) | | | | Bancyfelin 7.00<br>Cwrdd Pregethu |
| **Mai 18** | Priordy<br>Gweinidog | Cymanfa Bwnc<br>Elim ym<br>Mlwchnewydd<br>(+HA) Gweinidog | | |
| **Mai 25** | Priordy<br>Tudur Dylan & aelodau<br><br>Heol Awst<br>Ken Thomas | | | |
| **Mehefin 1** | Priordy©<br>Gweinidog | Elim (+HA) ©<br>Gweinidog | | |
| **Mehefin 8**<br>Sulgwyn | Priordy<br>Gweinidog | | Heol Awst (+E) ©<br>Gweinidog | Dechrau Canu<br>Dechrau Canmol<br>5.30 |
| **Mehefin 15**<br>Sul y Tadau | Priordy – *OD*<br>Gweinidog | Elim (+HA)<br>Gweinidog | | |
| **Mehefin 22** | Pererindod yr Ofalaeth<br>Gweinidog | | | |
| **Mehefin 29** | Heol Awst<br>Oedfa Capeli Cymraeg<br>y dref. Gweinidog | | | Gwyl Hirddydd<br>Haf<br>4.30. Parc y Dref |

# AMSERLEN YR YSGOL SUL

| **Mai / Mehefin 2025** | | |
|---|---|---|
|  | **Elim**<br><br>**4 Mai – Ysgol Sul**<br>**11 – Ysgo Sul**<br>**19 Mai – Cymanfa Bwnc ym Mwlch newydd**<br>**25 Mai – Dim Ysgo Sul**<br>**1 Mehefin – Oedfa Fedydd**<br><br>**Y Priordy**<br><br>**4 Mai – Ysgol Sul**<br>**11 Mai - Oedfa Deulu**<br>**18 -Mai - Erw Hir**<br>**25 Mai - Dim Ysgol Sul** |  |






**Undeb yr Annibynwyr Cymraeg**

**Cyfundeb Gorllewin Caerfyrddin**

# Oedfa'r Chwiorydd 2025

**Nos Fercher, 18 Mehefin**
**am 7 o'r gloch**
**yng Nghapel Cana, Bancyfelin**
**Paned i ddilyn**

**Casgliad ar y noson tuag at**
**The Teenage Cancer Trust**